# CYNGOR TREF PORTHMADOG

Chwefror 2024

Annwyl Gynghorydd,
Cynhelir cyfarfod Cyngor Tref Porthmadog, Nos Fercher,13 o Fawrth 2024 yn Ystafell Glaslyn, Ganolfan Porthmadog am 6.30 y.h. a gwysir chi aelodau i fod yn bresennol. Bydd modd ymuno gyda Microsoft Teams. I dderbyn gwahoddiad ar gyfer mynediad, cysylltwch â'r Clerc. clerccyngtreport@gmail.com

RHAGLEN

1. Presennol.

2. Ymddiheuriadau.

3. Datgan diddordeb.

4. Aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

5. Materion Cyfansoddiadol a Staff.

6. Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor Mis Chwefror 2024.

7. Annwyl Eric

Yn ddiweddar mae ochr y llwybr dwi wedi ei ddangos ar y cynllun uchod, sef llwybr "Carreg Cnwc" wedi syrthio i mewn i'r ffoes ger Rose Cottage. Wnaeth Cyngor Gwynedd gosod gwahanfuriau dros dro i gau y llwybr yn dilyn galwad argyfwng dros y penwythnos a ddigwyddodd y tirlithriad. Yn anffodus mae rhain yn cael eu symud yn rheolaidd.

Wrth edrych i mewn i'r sefyllfa mae wedi dod i'r golwg nid ydyw'r llwybr yma wedi ei gofrestru gan Gyngor Gwynedd ac felly ddim yn dangos ar ein Map Swyddogol (Definitive Map). Roedd perchennog Rose Cottage yn dweud bod cytundeb wedi bod rhwng y "cyngor" a'i rhiant blynyddoedd yn ôl er mwyn symud y llwybr i le mae yn rhedeg heddiw. Dwi heb ddod ar draws fath cytundeb ac felly hoffwn ofyn os roedd fath cytundeb rhwng cyngor tref Porthmadog yn hytrach nag Cyngor Gwynedd?

Sylwais hefyd bod cyngor tref Porthmadog wedi bod yn cynnwys y llwybr yma yn eich rhaglen torri flynyddol dros y blynyddoedd diwethaf. Hefyd mae'r llwybr yma gyda sawl llwybr arall yn mynd oddi ar tuag at y traethau bach ac felly yn amlwg wedi galluogi mynediad i'r traethau yma ers amser maith.

Gwerthfawrogwn felly petaech fedru adrodd yn ôl i mi cyn gynted â phosib efo unrhyw wybodaeth ynglŷn ar lwybr yma.

8. Trafodaeth ar gostau adnewyddu goleuadau Nadolig gydag amcangyfri' o £7700. Ar ben hyn mae angen goleuadau newydd i'r coed Nadolig.
9. Annwyl cyngor Tref Porthmadog ,

Mae Bryn Coffa yn lle sy'n agos iawn at galonnau pobl Porthmadog fel rwy'n siŵr eich bod yn gwybod yn iawn. Mae Bryn Coffa yn arbennig o agos at fy nghalon gan i mi wasanaethu yn y fyddin am 17 mlynedd.

Yn anffodus, ers cael strôc, mae mynychu Gwasanaethau Sul y Cofio yn anodd - rwyf hefyd yn ymwybodol bod hyn yn broblem i nifer o bobl eraill sydd â phroblemau symudedd, yn enwedig yr henoed. Rwyf wedi trafod hefo Swyddog Cadwraeth Cyngor Gwynedd a'r 'War Memorial Society', sefydliadau sydd yn cydnabod pwysigrwydd y safle i pobl yr ardal a hoffwn awgrymu i'r Cyngor tref ystyried addasiadau posib isod:

1) Rhoi canllaw trwy ganol y grisiau ar y gwaelod
2) Rhoi canllaw ar y 3 gris ar ben Bryn Coffa
3) Edrych ar oleuo Bryn Coffa yn y nos, dwi'n deall bod 'na trydan yna yn barod
4) Ymchwilio i mewn i system sain i bobl gael gwrando ar y gwasanaeth dydd Sul y Cofio o'r gwaelod
5) Edrych ar roi bwrdd gwybodaeth ar waelod Bryn Coffa, er mwyn egluro hanes y Pensaer lleol wnaeth adeiladu'r coffa a phwysigrwydd Bryn Coffa i'r bobl leol

Gyda'ch caniatâd a cyd-weithriad y Cyngor Tref mi fydd hi'n bosib ceisio am grantiau gwahanol er mwyn cyflawni'r gwelliannau uchod e.e. y loteri, ella British Legion, a nifer o gymdeithasau milwrol gwahanol.

Rydw i'n edrych ymlaen clywed yn ôl gan y Cyngor Cymuned, ac yn gobeithio y bydd hi'n bosib i ni gydweithio yn y dyfodol er mwyn sicrhau fod mynediad i Bryn Coffa.

10. Penderfynu ar ddefnyddio ap SCRIBE I gofnodi cyfrif y Cyngor Tref.

11. Cynnig i Gyngor Tref Porthmadog edrych i mewn i gymryd prydles ar parc ganol dref Porthmadog. Cyng. Gwilym Jones.

12. Anfoneb toiledau 2021-22

13. Cynllun Rhannu Cartref.

14. Mae Coedwig Genedlaethol Cymru wedi rhannu gwybodaeth am gylch cyllid newydd, sy'n agor ar 21 Chwefror ac yn cau ar 8 Mai. Bydd y cynllun yn cynnig grantiau o rhwng £10k a £40k ar gyfer pob safle coedwig (hyd at £250k ar gyfer mwy nag un safle mewn un cais). Mae'n addas ar gyfer sefydliadau, cymunedau ac unigolion sydd am greu coetiroedd bach newydd a fydd yn cael eu rheoli mewn cydweithrediad â'r gymuned leol. Mae'r gwaith plannu, y gwaith paratoi tir a'r hyfforddiant yn cael eu hariannu ac, wedi hynny, mae angen i'r sefydliad/grŵp cymunedol gynnal a monitro eu Coetir Bach yn barhaus. Bydd y cynllun yn cael ei weinyddu ar eu rhan gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol. Mae rhagor o

wybodaeth am y cynllun Coetiroedd Bach ar gael yn: Coetiroedd Bach | LLYW.CYMRU

Mae Coetiroedd Bach yn cael eu cynllunio drwy ddefnyddio'r dulliau a ddatblygwyd gan Dr Akira Miyawaki gan ddilyn yr egwyddorion canlynol:

- Ardaloedd bach o goed coetir brodorol sy'n tyfu'n gyflym (tua 25 o rywogaethau) sydd wedi'u gosod yn glòs wrth ei gilydd ydyn nhw, ac mae'r coed yn cael eu plannu a'u rheoli mewn partneriaeth â chymunedau lleol.

- Dylai pob coedwig fod tua $200m^2$, sydd tua'r un maint â chwrt tennis.

- Mae'r dull plannu yn annog coedwigoedd sy'n datblygu'n gyflym, ac nid oes cemegion na gwrtaith yn cael eu defnyddio.

- Ar ôl y ddwy flynedd gyntaf, mae'r gofynion o ran rheoli a chynnal a chadw yn isel.

- Maen nhw'n darparu bioamrywiaeth gyfoethog, a gallant ddenu dros 500 o rywogaethau anifeiliaid a phlanhigion yn y tair blynedd gyntaf.

- Maen nhw'n fannau gwyrdd lle ceir cyfoeth o fyd natur y gall pobl gael mynediad iddynt ac yn ystafelloedd dosbarth awyr agored i ailgysylltu pobl â natur.

- Bydd safleoedd Coetiroedd Bach yn dod yn rhan o Goedwig Genedlaethol Cymru yn awtomatig.

Mae rhagor o wybodaeth am y dull Coetiroedd Bach ar gael drwy'r ddolen ganlynol: Coetiroedd Bach (earthwatch.org.uk)

15. "National Grid". Adborth o "site visit" gyda "National Grid"

16. Ceisiadau cynllunio
a) Rhif Cais .: C24/0118/44/CR
Lleoliad 4 - 5 Stryd Lombard, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9AP
Bwriad Addasiadau mewnol ac allanol i'r adeilad.

b) Rhif Cais C24/0100/44/TC
Lleoliad Bodlondeb Ffordd Morfa Bychan, Morfa Bychan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UY
Bwriad: Amnewid carafan sefydlog sydd wedi cael defnydd am 15 mlynedd +.

17. Biniau wrth ochr Ganolfan Hamdden. Cyng. Martin Roberts

18. Llwybr rhwng Chinese a Bank place. Cyng. Martin Roberts.

19. Fel mater i'w godi - goleuadau traffig - goleuadau coch - yn cael eu gosod yn ardal Porthmadog weithiau ar benwythnosau prysur yn y flwyddyn heb unrhyw waith yn cael eu gwneud wedyn am ddyddiau. Cyng. Llywelyn Rhys.

20. Diweddariad ar gais Plac Porffor.

21. Tendrau llwybrau. Dewis pwy fydd torri llwybrau.

22. Cwyn am ceir ar palment busnes sydd ym Mhorthmadog.

23. Ceisiadau am gymorth ariannol.
- Y Ganolfan
- Clwb Chwaraeon Madog.
- Dawns i Pawb.
- Y gorlan Fach Tremadog.
- Theatr Bara Caws.
- Neuadd Goffa Tremadog.
- Merched y Wawr.
- Cyfeillion Ysgol y Gorlan.
- Clwb Nofio PPB.
- Clwb Rhwyfo Port.
- Y Wylan
- Cyfle i Pawb.
- Ffermwyr ifainc Dyffryn Madog.
- Cylch Meithrin Porthmadog.
- Clwb Peldroed Porthmadog.
- Cae Pawb.
- Radio Ysbyty Gwynedd.
- Ffermwyr Ifainc Eryri.
- Sioe Frenhinol Sir Caernarfon.

24. MATERION ARIANNOL :

| | | |
|---|---|---|
| **Derbyniadau** :H.S.B.C. | Llog Banc Tachwedd / Rhagfyr 2023 | £ 56.88 |

**Biliau i'w talu :-**

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | Costau gweinyddu | LLinell Ffôn a Wê Rhagfyr 2023 | £ |
| 2 | Costau gweinyddu | Chwefror 2024 | £ 951.96 |
| 3 | Cyllid a Thollau ei Fawrhydi | Treth Incwm cyflog Clerc | £ 237.80 |
| 4 | Y Ganolfan Chwefror | cyfarfodydd | £ 60 |
| 5 | Archwilio Cymru | Archwilio 2021-22 | £200 |
| 6 | Xerox | Llungopio | £164.40 |
| 7 | Lwfans Cynghorwyr | | £1664 |
| 8 | Arena Group | llungopio | £8.83 |
| | | | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |

Bydd cyfarfod nesaf Cyngor Tref Porthmadog yn y Ganolfan, 9fed o Ebrill am 7 y.h.

Eric Price
(Clerc)

*(Clerc/Clerk), Garn View, Upper Ala Road, Pwllheli, Gwynedd,LL53 5RF*
*Ffôn / Tel : 07890988173*
*E-bost/ e-mail : clerccyngtreport@gmail.com*